


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod: 680A2011

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn gan gynnwys £15 biliwn a drosglwyddir i Gymru bob blwyddyn trwy bleidlais gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron i £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol, trwy gyfrwng grantiau cyffredinol a phenodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall trwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gofalu bod arian cyhoeddus yn cyfrif, trwy hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl Cymru yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi'u rheoli'n dda, sy'n cynnig y gwerth am arian gorau posibl. Mae hefyd yn ymrwymo i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ledled sector cyhoeddus Cymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan John Roberts o dan oruchwyliaeth Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a pharatoi'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** **4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae’r cynnydd mae’r Awdurdod yn ei wneud gyda’i drefniadau yn ei roi mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliannau mesuradwy yn y dyfodol 8

Mae’r Awdurdod wrthi’n cyflawni gwaith angenrheidiol i wneud ei drefniadau terfynol ar gyfer sicrhau gwelliannau yn 2012-13 9

Er gwaethaf rhwystrau tymor byr mewn rhai agweddau ar ei wasanaethau cynllunio, mae’r Awdurdod yn gwella’r ffordd mae’n gofalu am y Parc a sut mae’n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc 13

Er gwaethaf rhai rhwystrau dros dro i’r duedd hirdymor o welliannau yn ei wasanaethau cynllunio, mae’r Awdurdod yn gwella’r ffordd mae’n gofalu am y Parc 13

Mae’r Awdurdod yn cyflawni gwelliannau mesuradwy i’r ffordd mae’n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc 16

Hyd yma, nid yw cynnydd yr Awdurdod o ran datblygu dulliau mesur llwyddiant ystyrlon a’i drefniadau craffu wedi arwain at ddulliau effeithiol o fonitro a gwerthuso ei berfformiad mewn perthynas â’i flaenoriaethau 19

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 22

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a’r Awdurdod 23

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 24

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 26

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair brif adran, sy'n cwmpasu gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliannau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod).

2 Ar y cyfan, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod y cynnydd mae'r Awdurdod yn ei wneud gyda'i drefniadau yn ei roi mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliannau mesuradwy yn y dyfodol.

3 Mae'r Awdurdod wrthi'n cyflawni gwaith angenrheidiol i wneud ei drefniadau terfynol i sicrhau gwelliannau yn 2012-13. Mae'r Awdurdod wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ei drefniadau a'i brosesau mewnol. Mae gwelliannau yn y meysydd hyn yn cynnwys: cynyddu capasiti'r Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT); darparu hyfforddiant atebolrwydd[1] seiliedig ar ganlyniadau i staff ac aelodau; adolygu ei gyfarwyddiaeth rheoli tir a chefn gwlad; ymgysylltu'n fwy gweithredol â rhanddeiliaid allweddol; a datblygu fframwaith rheoli ac adrodd ar berfformiad sy'n cynnwys gofyniad i ddarparu gwybodaeth glir am effaith. Mae'r pethau hyn, ynghyd â'r trefniadau gwell y mae'r Awdurdod wedi'u rhoi ar waith dros y blynyddoedd diwethaf, yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliannau mesuradwy yn y dyfodol.

4 Er gwaethaf rhwystrau tymor byr mewn rhai agweddau ar ei wasanaethau cynllunio, mae'r Awdurdod yn gwella'r ffordd mae'n gofalu am y Parc a sut mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc. Daethom i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- Er bod rhai mesurau'n dangos dirywiad ym mherfformiad gwasanaethau cynllunio'r Awdurdod yn 2010-11, tuedd o welliant a geir yn gyffredinol o hyd. Bu'r Awdurdod yn gweithio, gydag eraill yn aml, i gynnal a gwella cyflwr ffisegol y Parc.
- Yn 2010-11, cymerodd mwy o bobl ran yn y digwyddiadau a drefnwyd gan yr Awdurdod. Parhaodd ei wasanaeth addysg i ddarparu llawer iawn o amser cyswllt gyda dysgwyr. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr ei wasanaeth addysg a'i ganolfannau ymwelwyr, a chan y rhai a aeth ar deithiau tywys a drefnwyd ganddo.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn ymateb i asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'i drefniadau ei hun. Daethom i'r casgliad bod cynnydd yr Awdurdod o ran datblygu dulliau mesur llwyddiant ystyrlon a'i drefniadau craffu wedi arwain at ddulliau effeithiol o fonitro a gwerthuso ei berfformiad mewn perthynas â'i flaenoriaethau.


1 Fframwaith ymarferol sy'n galluogi sefydliadau i feddwl a gweithredu i wella gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell.

# Cynigion ar gyfer gwella

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn yr adroddiad hwn. Er hynny, cyflwynir cynigion ar gyfer gwella isod.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Gwella gallu'r Awdurdod i fonitro a gwerthuso gwelliant trwy:<br>• sicrhau bod y strwythur adrodd arfaethedig yn canolbwyntio ar gynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau, yn hytrach na pherfformiad y gwasanaeth yn unig; a<br>• bod yn glir ynglŷn â manteision posibl ei weithgareddau ac asesu i ba raddau y mae'r rheini wedi'u cyflawni. |
| **C2** | Adeiladu ar y gwelliannau a wnaed i'w drefniadau mewnol er mwyn canolbwyntio ar, a chyflawni canlyniadau mesuradwy i'r Parc a'r bobl. |
| **C3** | Sicrhau bod cynlluniau gwella sy'n edrych i'r dyfodol yn cael eu cyhoeddi'n gynharach o lawer, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

7 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth staff Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir disgrifiad cryno o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 2.

8 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol am ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* yn cyflwyno darlun o beth mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hyn, ac yn manteisio ar waith arolygiaethau eraill lle bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod.

9 Gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi beth mae angen i'r Awdurdod ei wneud er mwyn gwella ei wasanaethau. O gofio'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol iawn pe na baem yn canfod rhywbeth y gellir ei wella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd;
- cynnal archwiliad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – ac os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Awdurdod ymateb iddo'n gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn cyflwyno cynigion i'r Awdurdod, disgwyliwn iddynt weithredu arnynt cyn dilyn hynny wedyn.

10 A yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i chi, ac yn hawdd i'w ddeall? Mae croeso i chi anfon sylwadau trwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

.

## Mae’r cynnydd mae’r Awdurdod yn ei wneud gyda’i drefniadau yn ei roi mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliannau mesuradwy yn y dyfodol

11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau’r awdurdod. Mae casgliadau’r adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnus ac a rennir, a chanfyddiadau’r gwaith blaenoriaeth a wnaed eleni. Trwy wneud hyn, rydym hefyd wedi ystyried unrhyw amcanion gwella yr oedd yr Awdurdod wedi gobeithio’u cyflawni yn 2010-11. Lle bo’n berthnasol, rydym yn cyfeirio at yr amcanion gwella hyn yn yr adrannau canlynol. Yn anochel, mae unrhyw asesiad yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir a pha mor berthnasol ydyw.

## Mae'r Awdurdod wrthi'n cyflawni gwaith angenrheidiol i wneud ei drefniadau terfynol ar gyfer sicrhau gwelliannau yn 2012-13

12 Yn ein llythyr *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* a anfonwyd at brif weithredwr yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2011, daethom i'r casgliad y byddai mentrau gwella capasiti, setliad ariannol gwell na'r disgwyl yn gysylltiedig â strategaeth ariannol tymor canolig manwl a ffocws ar wella dulliau craffu yn cryfhau gallu'r Awdurdod i wella. Er bod yr Awdurdod yn datblygu dull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, nid yw eto wedi llwyddo i ymgorffori'r dull hwn yn ei drefniadau cynllunio gwelliant hwyr.

13 Roedd y llythyr hefyd yn nodi bod amcanion gwella'r Awdurdod a'i gynllun gwella (sef yr *Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2010 i 2011 ac amcanion gwella ar gyfer 2011 i 2012*) yn bodloni gofynion y Mesur. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud, o ran amseru a gwella eglurder, os yw ei gynllun gwella ar gyfer 2012-13 am ddarparu adlewyrchiad cywir o'i ddyheadau i sicrhau gwelliannau.

14 Mae'r Awdurdod wedi dechrau ymateb yn gadarnhaol i rai o'r cynigion ar gyfer gwella a amlinellir yn y llythyr ac yn *Adroddiad Gwella Blynyddol 2010*. Yn fwy na dim, cynyddwyd gallu'r Tîm Rheoli Corfforaethol trwy roi mwy o awdurdod i benaethiaid gwasanaethau wneud penderfyniadau gweithredol a thrwy ddarparu hyfforddiant rheoli prosiect. Mae sefydlu diwylliant rheoli prosiect wedi datblygu'n brosiect ynddo'i hun.

15 Mae'r meysydd cynnydd eraill mewn ymateb i'n cynigion cynharach yn cynnwys:

- cynnal adolygiad o amcanion personol Cyfarwyddwyr;
- cytuno i beidio â chyfuno dau gynllun gwella'r Awdurdod gyda'r nod o sicrhau bod cynllun gwella blynyddol yr Awdurdod, sy'n edrych i'r dyfodol, yn cael ei gyhoeddi'n gynharach o lawer; a
- datblygu fframwaith rheoli ac adrodd ar berfformiad sy'n cynnwys gofyniad i ddarparu gwybodaeth glir am effaith.

16 Roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn cynnwys yr angen i gyflwyno ail flwyddyn ei gynlluniau gwella tair blynedd ar gyfer Cyllid, Rheoli Perfformiad a Gwybodaeth a Llywodraethu. Ar 31 Mawrth 2011, roedd 25 o'r 34 cam gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau, pedwar ar waith, un yn hwyr a phedwar heb ddechrau (er bod dau o'r rhain wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2011). Yn gyffredinol, mae hyn yn dangos cynnydd da ac ymrwymiad cryf gan staff yr Awdurdod i sicrhau gwelliannau. Mae enghreifftiau o gamau a gwblhawyd yn cynnwys:

- diffinio a chytuno ar gynllun parhad busnes;
- cymeradwyo polisi rheoli cofnodion;
- darparu hyfforddiant atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau i staff ac aelodau; ac
- adolygu ac ailgynllunio proses gaffael yr Awdurdod.

17 Er bod y camau gweithredu yn y cynlluniau tair blynedd yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau, maent yn barhad o fwriad yr Awdurdod i gyflawni gwaith angenrheidiol i sicrhau gwelliannau i'r Parc ac i'r bobl.

18 Mae'r Awdurdod yn cynnal adolygiad strwythurol o'i gyfarwyddiaeth rheoli tir a chefn gwlad. Mae staff wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cynigion, cafodd y strategaeth eang ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ym mis Medi 2011 a chyflwynwyd cynigion manwl i'r Awdurdod ar 9 Rhagfyr 2011. Caiff y strwythur newydd, sy'n ceisio cynyddu effeithiolrwydd y gyfarwyddiaeth, ei gyflwyno ddiwedd mis Mawrth 2012. Mae'r aelodau'n cefnogi'r adolygiad, yn enwedig gan y dylai gefnogi eu dymuniad i weld yr Awdurdod yn canolbwyntio mwy ar faterion cefn gwlad.

19 Er bod cynllun gwella'r Awdurdod wedi dewis rhoi sylw i ostyngiad sylweddol mewn absenoldeb salwch gweithwyr cyflogedig yn ystod y cyfnod 2004-2011, roedd yna gynnydd yn nifer y diwrnodau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn 2010-11. Roedd y ffigur hwn wedi codi 45 y cant i 9.14 diwrnod, o 6.29 yn 2009-10. Mae hyn yn cymharu ag 14 diwrnod cyfwerth ag amser llawn yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a 6.1 diwrnod yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fodd bynnag, tra bod salwch byrdymor wedi cynyddu o 4.77 i 5.6 diwrnod, cynyddodd salwch hirdymor 2.3 diwrnod, cynnydd o dros 150 y cant. Mewn sefydliad cymharol fach, mae salwch tymor hir anochel rhai aelodau staff yn cael effaith anghymesur ac rydym yn deall bod lefelau absenoldeb salwch yn gwella yn 2011-12. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, dim ond yn flynyddol yr adroddir am lefelau absenoldeb salwch i'r Awdurdod, felly nid yw'n cynnwys dadansoddiad o lefelau salwch tymor byr.

20 Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad oedd ei gynllun gwella cyfunol, a gyhoeddwyd yn 2011-12, cystal â'r disgwyl. Roedd hyn yn bennaf oherwydd ei fod wedi ceisio cytuno ar fformat priodol, gyda negeseuon perthnasol, o fewn amserlen dynn iawn. Fel y nodwyd yn flaenorol, ni ddylai'r mater amseru hwn fod yn broblem yn 2012-13. Fodd bynnag, roeddem hefyd o'r farn na lwyddodd y cynllun gwella i greu darlun cyflawn o berfformiad. Mae'r asesiad o absenoldeb salwch a nodwyd yn y paragraff blaenorol, yn ogystal â'r gwaith o adrodd ar ganlyniadau'r holiadur gwasanaeth cynllunio y cyfeirir ato'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, yn enghreifftiau o hyn.

21 Mae'r Awdurdod yn parhau i gynnal adolygiad o'i amcanion strategol gyda gweithdai i aelodau a swyddogion wedi'u cynnal ym mis Rhagfyr 2011. Nod y gweithdai hyn yw herio dull cyfredol yr Awdurdod, gan ddefnyddio'r dull 'atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau' i helpu i sicrhau bod mesurau ystyrlon yn cael eu rhoi ar waith i ddangos cynnydd yn erbyn amcanion gwella ar gyfer 2012-13 sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

22 Mae rhywfaint o ddadlau wedi bod yn yr Awdurdod ynglŷn â sut i sicrhau bod aelodau'n canolbwyntio mwy ar faterion rheoli tir a chefn gwlad. Cafodd y dewis o sefydlu pwyllgor cefn gwlad ei wrthod; yn hytrach, penderfynodd yr Awdurdod wneud cefn gwlad yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr Awdurdod. Mae aelodau'r Awdurdod yn parhau i fod yn rhan o'r prosiect craffu a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am

ganlyniadau'r gwaith ym mharagraff 64. Mae gan gadeirydd yr Awdurdod a'i brif weithredwr berthynas waith dda, ac mae'r cadeirydd yn annog dull gwaith cynhwysol gydag aelodau a staff.

23 Un o amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2010-11 oedd 'datblygu egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ym mhopeth a wnawn, yn cynnwys datblygu a gweithredu siarter gyda chynghorau cymuned'. Mae'r prif weithredwr a'i dîm wedi bod wrthi'n ddiwyd yn ceisio cynnwys cynghorau cymuned yn y gwaith o sefydlu a mabwysiadu'r siarter hon. Ar ôl ymgynghori â chynghorau tref a chymuned ar siarter ddrafft, gwnaed newidiadau i'r siarter cyn iddi gael ei chwblhau.

24 Adeg drafftio'r adroddiad hwn, o'r 52 o gynghorau cymuned yn ardal yr Awdurdod, roedd 18 wedi derbyn gwahoddiadau i fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan yr Awdurdod ac roedd wyth wedi cofrestru ar gyfer y siarter. Mae'r Awdurdod yn bwriadu trefnu mwy o gyfarfodydd dros y misoedd nesaf gyda'r nod o annog cynghorau cymuned i gofrestru ar gyfer y siarter. Bydd y rheini a fydd yn cofrestru'n ymrwymo i ddarparu ar sail cynllun gweithredu ar y cyd sydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r Awdurdod yn gobeithio y bydd y fenter hon yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth, yn enwedig mewn perthynas â materion cynllunio, yn ogystal â nodi dewisiadau gweithio ar y cyd a gwella cysylltiadau rhwng y sefydliadau sy'n cymryd rhan.

25 Mae'r prif weithredwr hefyd wedi bod yn trefnu cyfarfodydd gyda sefydliadau eraill, fel y cyfryngau a ffermwyr lleol. Er bod rhai o'r cyfarfodydd hyn yn rhoi sylw i faterion penodol, fel datblygu *Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy*, maent wedi helpu i wella cysylltiadau a hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth.

26 Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn effeithiol. Cofnododd danwariant o £95,000 yn erbyn ei gyllideb yn 2010-11, yn sgil nifer o ffactorau, ac, o ganlyniad, cynyddodd ei gronfeydd wrth gefn i £655,000 ym mis Mawrth 2011. Mae ganddo tua £400,000 mewn cronfeydd wrth gefn 'a glustnodwyd' hefyd, sydd wedi'u neilltuo i dalu am eitemau penodol o wariant arfaethedig neu ddisgwyliedig yn ystod y blynyddoedd nesaf.

27 Mae *Llythyr Archwilio Blynyddol* yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2011, i'w weld yn Atodiad 3. Yn y *Llythyr Archwilio Blynyddol*, mae'r Archwilydd yn nodi ei fod wedi cyhoeddi barn ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod. Mae hefyd yn gwneud y sylw canlynol:

'Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ofyniad newydd ar gyfer 2010-11. Er i'r Datganiad gael ei gwblhau yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae lle i wella arno yn y dyfodol. Yn arbennig, wrth adrodd am adolygiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu fel rhan o'i fusnes arferol yn ystod y flwyddyn. Bydd fy nhîm ymgysylltu'n trafod y mater hwn ymhellach gyda swyddogion i adeiladu ar flwyddyn gyntaf y gofyniad newydd hwn.'

28 Derbyniodd yr Awdurdod ganmoliaeth gan Fwrdd yr Iaith (y Bwrdd) am gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'i Bwyllgor Iaith Gymraeg ac am roi awdurdod digonol iddo gynghori a chyfarwyddo'r Awdurdod ar gynnwys drafft ei Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig. Mae'r Bwrdd yn parhau i bryderu fodd bynnag am yr oedi wrth gyflwyno'r Cynllun diwygiedig i'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaeth statudol. Mae cynnwys Cymraeg ar wefan newydd yr Awdurdod ymhell o fod yn gyflawn, ond mae dyddiad targed wedi ei gytuno erbyn hyn. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ei brif dderbynfa. Dim ond un o'r ddwy swydd sydd wedi ei dynodi'n 'Cymraeg hanfodol' sydd wedi ei llenwi gan siaradwr Cymraeg rhugl, gyda'r Awdurdod yn galw ar ddarpariaeth wrth gefn ychwanegol yn ôl yr angen. Dylai'r Awdurdod felly ddarparu cefnogaeth ddigonol i sicrhau fod sgiliau iaith staff yn cwrdd â gofynion ieithyddol y swydd.

## Er gwaethaf rhwystrau tymor byr mewn rhai agweddau ar ei wasanaethau cynllunio, mae'r Awdurdod yn gwella'r ffordd mae'n gofalu am y Parc a sut mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc

29 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth. Yn anochel, mae unrhyw asesiad yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir a pha mor berthnasol ydyw.

### Er gwaethaf rhai rhwystrau dros dro i'r duedd hirdymor o welliannau yn ei wasanaethau cynllunio, mae'r Awdurdod yn gwella'r ffordd mae'n gofalu am y Parc

30 Mae tri amcan gwella canlynol yr Awdurdod ar gyfer 2010-11 yn canolbwyntio'n bennaf ar ei wasanaeth cynllunio a chânt eu hystyried gyda'i gilydd:

- 'darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol sy'n ennyn hyder y cyhoedd a busnesau drwy gyflawni'r Cynllun Gwella Pellach';
- 'adolygu gwaith gorfodi a chynllunio ar gyfer gwasanaeth o ansawdd i gefnogi'r broses o gynllunio datblygiadau'; a
- 'sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei lunio yn unol ag amserlen y cytunwyd arni â Llywodraeth Cymru'.

31 Eglurodd yr Awdurdod mai nod y dangosydd perfformiad a ddewiswyd i ddangos gwasanaeth cynllunio rhagorol yw adolygu canlyniadau cyfunol yr arolwg ffôn chwarterol a'r arolwg a ddosbarthwyd i gwsmeriaid, a nododd mai ei darged oedd i 90 y cant o ymatebwyr roi sgôr o 3 neu fwy i'r gwasanaeth[2]. Nododd ei gynllun gwella fod 75.6 y cant o ymatebwyr wedi rhoi sgôr o 3 neu fwy, gan nodi bod eu rhyngweithio â'r Awdurdod wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r wybodaeth fanwl yn Atodiad 3 cynllun gwella'r Awdurdod yn dangos mai dim ond 50 y cant o ymatebwyr oedd o'r farn bod safonau cyffredinol y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn, gyda 32 y cant yn nodi bod y safonau'n wael neu'n wael iawn. Roedd 18 y cant o ymatebwyr o'r farn bod safonau cyffredinol y gwasanaeth yn eithaf da. Byddai sylwadau mwy cytbwys ar y canlyniadau hyn wedi bod yn ddefnyddiol yng nghorff y cynllun gwella. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae nifer y cwynion ynglŷn â'r gwasanaeth cynllunio'n parhau i ddisgyn, o 46 yn 2008-09, i 22 yn 2009-10, i 14 yn 2010-11, gostyngiad o bron i 70 y cant dros dair blynedd.

32 Dylid llongyfarch yr Awdurdod am gymryd camau i nodi lefelau boddhad fel modd o fesur hyder y cyhoedd a busnesau. Fodd bynnag, hyd nes y gall nodi'r elfennau sy'n cael yr effaith fwyaf ar hyder cyffredinol y cyhoedd a busnesau ac sy'n diffinio 'gwasanaeth cynllunio rhagorol', ni fydd mewn sefyllfa i asesu'r newidiadau sydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau gwelliannau.

33 Mae gwneud y penderfyniadau cywir ar geisiadau cynllunio, a chael cefnogaeth arolygydd cynllunio a benodwyd gan y llywodraeth os yw'r ymgeisydd yn penderfynu apelio, yn helpu i ddiogelu'r Parc rhag datblygiadau diangen. Dim ond 44 y cant o apeliadau a gefnogodd benderfyniadau cynllunio'r Awdurdod yn 2009-10; erbyn 2010-11, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 67 y cant. Cefnogodd pum o'r chwe apêl gorfodi  rybuddion gorfodi cynllunio'r Awdurdod yn 2010-11, o gymharu â 100 y cant yn 2009-10.

34 Er nad dyma'r unig ffactor sy'n diffinio 'gwasanaeth cynllunio rhagorol', mae'r Awdurdod yn casglu gwybodaeth am

2 1 = gwael iawn, 2 = gwael, 3 = eithaf da, 4 = da, 5 = da iawn

gyflymder prosesu fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol. Amlinellir perfformiad yr Awdurdod yn 2010-11 isod:

- cafodd 59.6 y cant o geisiadau gan ddeiliaid tai eu prosesu o fewn wyth wythnos, islaw targed Llywodraeth Cymru o 65 y cant, o gymharu ag 82.5 y cant yn 2009-10;
- cafodd 57.1 y cant o fân geisiadau eu prosesu o fewn wyth wythnos, o gymharu â 62.5 y cant yn 2009-10, a tharged o 65 y cant; a
- chafodd 49 y cant o geisiadau eraill eu prosesu o fewn wyth wythnos, o gymharu â 53.7 y cant yn 2009-10, a tharged o 65 y cant.

35 Er bod y perfformiad o ran cyflymder prosesu ceisiadau cynllunio wedi dirywio yn 2010-11, dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y gwelliant sylweddol o gymharu â lefelau 2007-08 a 2008-09. Er enghraifft, yn achos ceisiadau bach, dim ond 17 y cant a gafodd eu prosesu o fewn wyth wythnos yn 2007-08, gan wella i 25 y cant yn 2008-09. Hyd yn hyn, yn 2011-12, mae perfformiad yn parhau i ddilyn y duedd hirdymor, gyda 64 y cant o geisiadau bach, er enghraifft, yn cael eu prosesu o fewn wyth wythnos.

36 Er bod nifer y ceisiadau cynllunio wedi cynyddu o 465 i 512, cynyddodd canran y ceisiadau a gymeradwywyd o 79 y cant i 84 y cant. Er ei bod yn debygol mai'r mathau o geisiadau yw'r rheswm pwysicaf dros gyfradd llwyddiant uwch, mae cyngor a chanllawiau cyn cynllunio'r Awdurdod wedi bod yn ffactor hefyd.

37 Roedd y penderfyniadau oedd yn aros i gael eu gwneud am geisiadau cynllunio yn 124 y cant[3] ar ddiwedd mis Mawrth 2011, yr uchaf o'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru[4] , er roeddynt ar yr un lefel â'r holl geisiadau a oedd yn aros am benderfyniad ledled 25 awdurdod cynllunio Cymru. Roedd y sefyllfa wedi gwella rhywfaint i 108 y cant erbyn diwedd mis Medi 2011. Dylai adnodd staffio ychwanegol diweddar sy'n gyfwerth â dau ddiwrnod ychwanegol yr wythnos helpu i leihau nifer y ceisiadau sy'n aros am benderfyniad ymhellach. Mae mynd i'r afael ag unrhyw ôl-groniad yn dod yn bwysicach fyth yng nghyd-destun un o amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2011-12, sef 'diogelu rhinweddau arbennig y Parc yn well rhag datblygiadau amhriodol' gan 'leihau'r ôl-groniad o achosion gorfodi i'w datrys'.

38 Cafodd yr adolygiad o'r swyddogaeth orfodi ei dderbyn gan yr Awdurdod ym mis Chwefror 2011. Arweiniodd yr adolygiad hwn at ailstrwythuro'r gwasanaeth, gan greu a llenwi dwy swydd newydd. O ganlyniad i'r oedi o ran cynnal yr adolygiad, mae'r nod o leihau'r ôl-groniad o achosion gorfodi wedi'i gario drosodd gan yr Awdurdod i 2011-12. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu grŵp aelodau a swyddogion gyda'r nod o ddod o hyd i ffyrdd o wella perfformiad, defnyddio data cymharol yn well a chyfarfod ag awdurdodau eraill i nodi arferion da.

39 Cyfarfu gweithgorau, a oedd yn cynnwys aelodau, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yr Awdurdod. Cafodd amserlen ddiwygiedig y CDLl, a oedd yn dderbyniol i Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru, ei chynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd

3 Nifer y ceisiadau a ddygwyd ymlaen fel canran o'r ceisiadau a dderbyniwyd. .

4 41 y cant ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a 92 y cant ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Ionawr 2011. Rydym yn deall bod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi rhoi canmoliaeth i ymgynghoriad cymunedol yr Awdurdod. Ymatebodd yr Awdurdod i'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ac aeth ati i wneud newidiadau i'r CDLl. Mae'r Awdurdod yn parhau i gyflawni'r targedau a bennwyd yn yr amserlen ddiwygiedig a bwriedir cynnal gwrandawiad cyhoeddus ym mis Mawrth 2012 gyda'r nod o fabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol yn ystod mis Medi 2012.

40 Cytunodd yr Awdurdod ar 'gynllun gwella parhaus' ar gyfer y gwasanaeth cynllunio, gyda dyddiadau cwblhau'n ymestyn o ddiwedd 2009 tan fis Mawrth 2013. Ym mis Mai 2011, roedd y rhan fwyaf o'r camau hyn wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn. Hefyd, cyflwynodd yr Awdurdod rai newidiadau i arferion gwaith yn y gwasanaeth cynllunio.

41 Hefyd, mabwysiadodd yr Awdurdod yr amcan gwella canlynol ar gyfer 2010-11:

- 'Lleihau effaith amgylcheddol yr Awdurdod yn cynnwys allyriadau $CO_2$.'

42 Er bod cynllun gwella'r Awdurdod yn cyfeirio at wahanol ffigurau mewn perthynas ag allyriadau $CO_2$, nid oedd unrhyw un o'r ffigurau'n berthnasol i'r cyfnod 2010-11. Mae ffigurau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru'n ddiweddarach yn awgrymu bod cyfanswm allyriadau'r Awdurdod wedi gostwng 2.65 y cant.

43 Mae'r Awdurdod wedi annog newidiadau yn y ffordd mae staff yn defnyddio'u cerbydau, gan gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o drefniadau gweithio gartref a rhannu car. O ystyried canlyniadau'r newidiadau mewn ymddygiad cymudo i'r gwaith, mae cyfanswm y gostyngiad mewn allyriadau $CO_2$ yn gyfwerth â 7.87 y cant, sef bron i 32 tunnell o $CO_2$.

44 Rhagwelir rhagor o newidiadau i hyrwyddo arbedion ynni, gan gynnwys defnyddio ceir bach, rhad ar danwydd yn lle cerbydau pedair sedd. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cwblhau astudiaethau dichonoldeb ar gynlluniau trydan dŵr micro ar ei dir, hyrwyddo Ffair Werdd a Gŵyl Fwyd Bannau Brycheiniog a gweithio gyda Chyngor Sir Powys i gynnal digwyddiad undydd i ddathlu Amgylchedd y Byd, gan ddefnyddio'r thema 'mae ar eich planed eich angen'.

45 Nid oes unrhyw amcanion gwella ar gyfer 2010-11 sy'n uniongyrchol berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn gwella'r ffordd y mae'n gofalu am y Parc. Er nad ydynt wedi'u dewis fel meysydd penodol i'w gwella, mae'r Awdurdod yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i warchod y Parc. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- cynghori ar reoli bywyd gwyllt a chynefinoedd;
- darparu cyngor a chyfrannu at gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus;
- defnyddio ei system adrodd ar-lein[5] i gynllunio trefniadau patrolio ar y cyd gyda'r heddlu lleol mewn safleoedd sydd mewn perygl o gael eu camddefnyddio gan bobl sy'n defnyddio cerbydau oddi ar y ffordd;
- prosesu ceisiadau am gyllid grant er mwyn rheoli tir mewn ffordd gynaliadwy;
- ymgynghori â'r gymuned ffermio ar weithrediadau a pholisi; a
- gweithio mewn partneriaeth â

5 Roedd y system yn allweddol yn y tri achos llwyddiannus o erlyn pobl oedd yn defnyddio cerbydau oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn 2010-11.

sefydliadau cadwraeth, tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol ac unigolion i hyrwyddo a datblygu bioamrywiaeth.

46 O ganlyniad i reolaeth uniongyrchol yr Awdurdod ar dir sy’n eiddo i’r Awdurdod neu’n cael ei weinyddu ganddo, cafodd 5.75 hectar o dir uchel y Mynydd Du ei adfer yn 2010-11, o gymharu â 4.25 hectar yn 2009-10. Cafodd 900 metr o Lwybr Clawdd Offa ei wella yn 2010-11, cynnydd o 300 metr o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Roedd canolbwyntio mwy ar wella ardaloedd y Mynydd Du a Chlawdd Offa yn 2010-11 yn golygu bod yr Awdurdod wedi mynd i’r afael â 1,091 metr o lwybrau tir uchel wedi erydu yn Craig y Fan Ddu a Fan Brycheiniog, o gymharu â 1,875 metr yn 2009-10.

47 Mae’r Awdurdod hefyd yn prosesu ceisiadau gan drydydd partïon am arian grant. Yn 2010-11, denodd y gronfa datblygu cynaliadwy[6] £6.69 yn fwy o arian cyfatebol am bob punt o grant a gynigiwyd, o gymharu â £2.86 am bob punt o grant yn 2009-10.

## Mae’r Awdurdod yn cyflawni gwelliannau mesuradwy i’r ffordd mae’n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc

48 Nid oes unrhyw un o amcanion gwella’r Awdurdod yn canolbwyntio ar fwynhad a dealltwriaeth pobl o’r Parc ond aethom ati i archwilio’r wybodaeth a oedd ar gael ac rydym wedi nodi rhai enghreifftiau yn y paragraffau canlynol.

49 Mae mynediad yn hollbwysig i fwynhad y cyhoedd o’r Parc. Roedd canran cyfanswm y llwybrau cerdded a hawliau tramwy eraill sy’n hawdd i’r cyhoedd eu defnyddio wedi gostwng o 63 y cant yn 2009-10 i 54 y cant yn 2010-11. Roedd hyn islaw targed yr Awdurdod o 64 y cant. Gall y ffigur hwn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y dull mesur felly mae’n bwysig bod yr Awdurdod yn monitro’r duedd tymor hir.

50 Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan bwysig o’r gwaith o sicrhau mynediad ehangach i’r Parc. Mae’r Awdurdod yn parhau i gomisiynu Bysiau’r Bannau gyda’r nod o annog pobl o bob cwr o’r De a Swydd Henffordd i ddod i Aberhonddu ar ddydd Sul ac ar wyliau cyhoeddus gydol yr haf. Roedd nifer y teithwyr wedi cynyddu o ychydig dros 11,000 i dros 13,000 yn 2010-11. Yn ogystal â darparu trafnidiaeth gyhoeddus, mae’r Awdurdod yn cyhoeddi taflenni sy’n helpu pobl i gynllunio teithiau cerdded sy’n cychwyn ac yn dod i ben yn ymyl safleoedd bws hygyrch.

51 Yn ogystal â rhai o’r cyfleoedd mynediad eraill a nodwyd yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, mae’r enghreifftiau canlynol o 2010-11 yn dangos ffocws parhaus yr Awdurdod ar hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth:

- cynnal digwyddiad gwylio’r sêr yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol;
- cyfuno teithiau cerdded a chwisiau a threfnu digwyddiad Fferm Agored ar ddydd Sul;
- buddsoddi’n sylweddol mewn gwelliannau dehongliadol ar gyfer Llwybr Nant Llech;

6 Ariannwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cymru ac yn cael ei weinyddu gan awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru a Lloegr.

- gweithio gydag Age Cymru i gyflwyno pobl i gerdded Nordig[7], a chydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i gynnal cyfres o weithgareddau ar themâu archaeolegol a hanesyddol;
- trefnu seremoni 'Bendithio'r Ceffyl' i ddenu ceffylau a'u marchogion i'r ardal; a
- threfnu 'wythnos sblash' am y tro cyntaf yn ystod gwyliau ysgol, gan roi cyfle i 200 o blant roi cynnig ar hwylio, cychod trydan a cherdded ceunentydd.

52 Ar y cyfan, cynyddodd nifer y bobl oedd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan yr Awdurdod yn ystod 2010-11. Er enghraifft, denodd Gŵyl Geobarciau oedd yn cynnwys rhaglen o 25 taith gerdded, sgyrsiau a digwyddiadau eraill dros 16 diwrnod, fwy na 1,700 o bobl, o gymharu â llai na 1,400 ar gyfer digwyddiadau tebyg a gynigiwyd yn ystod yr un cyfnod yn 2009-10. Cafwyd cynnydd o 2,000 yn nifer y bobl a ymwelodd â chanolfannau'r Awdurdod yn 2010-11, gan godi'r ffigur i 336,700. Cyflwynodd yr Awdurdod arolwg boddhad cwsmeriaid newydd mewn pedwar o'i bum safle. Cofnododd yr arolwg lefel boddhad cyfartalog o 9.8, ar raddfa 11 pwynt.

53 Mae'r Tîm Addysg yn cyfrannu'n bwysig at waith yr Awdurdod o hyrwyddo dealltwriaeth. Mae'r tîm yn darparu amrywiaeth o gyrsiau, rhai ohonynt yn gyrsiau preswyl, i grwpiau ysgol. Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer disgyblion lefel sylfaen a chyfnodau allweddol un a dau, TGAU, safon uwch a thu hwnt. Mae cyrsiau'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn ogystal ag ymweld ag ysgolion a chymunedau lleol, mae'r tîm yn cynhyrchu taflenni ffeithiau, yn cyhoeddi cylchlythyr i ysgolion ac yn darparu cynlluniau gwersi ac adnoddau eraill ar wefan yr Awdurdod.

54 Roedd gan y gwasanaeth addysg lai o adnoddau yn 2010-11 gan fod prosiect a ariannwyd trwy grant wedi dod i ben. Er ei fod wedi colli'r arian hwn, bu'r gwasanaeth addysg yn gweithio gyda bron i 5,000 o ddysgwyr, gan arwain at dros 18,000 awr o amser cyswllt uniongyrchol, o gymharu â 6,500 o ddysgwyr a 27,000 awr o amser cyswllt yn 2009-10. Yn seiliedig ar y mesur newydd a gyflwynwyd gan y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, 10 oedd y sgôr a nodwyd amlaf gan ddefnyddwyr y gwasanaeth pan ofynnwyd iddynt sgorio eu profiad ar 'raddfa ysbrydoliaeth'[8].

55 Mae rhaglen profiad gwaith yr Awdurdod hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth trwy'r lleoliadau pythefnos blynyddol a gynigir i fyfyrwyr. Fel y flwyddyn flaenorol, cymerodd wyth o bobl ifanc, rhwng 14 a 15 oed ran yn y rhaglen hon. Cawsant brofiad gwaith gyda gwahanol wasanaethau'r Awdurdod, gan ymweld â llefydd a gwneud gwaith cadwraeth. Mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dysgwyr o'r amgylchedd naturiol, cynaliadwyedd a thirwedd warchodedig y Parc.

7 Cerdded Nordig, neu gerdded sgïo fel y'i galwyd yn wreiddiol, yw cerdded gyda pholion tebyg i bolion sgïo i ymarfer rhan uchaf y corff wrth gerdded.
8 Mae sgorau ysbrydoliaeth yn amrywio o un i 11, gyda 11 y lefel ysbrydoliaeth uchaf

56 Mae teithiau cerdded tywysedig a drefnir gan yr Awdurdod yn debygol o arwain at ddealltwriaeth, ac yn wir, mwynhad o'r Parc. Cynyddodd nifer y teithiau cerdded yn sylweddol yn ystod 2010-11, i 49, o gymharu â 29 yn y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd nifer y rhai a fu'n cymryd rhan hefyd, o 325 yn 2009-10 i ychydig dros 450 yn 2010-11. Er mwyn ceisio mesur eu gwerth, mae'r Awdurdod yn casglu adborth adeg y daith ei hun ac yn dilyn hynny gydag arolwg ffôn tua chwe wythnos wedyn. Yn 2010-11, cyflwynodd yr Awdurdod asesiad sgorio tebyg i'r sgôr 'ysbrydoliaeth' a ddefnyddiwyd ar gyfer ei waith gydag ysgolion. Roedd y sgorau cyfartalog ar gyfer mwynhad, diddordeb a'r trefniadau yn uwch na 10. Er bod 65 y cant yn cofio thema neu stori taith wrth gael eu holi chwe wythnos yn ddiweddarach, roedd hyn yn is na'r 74 y cant a gafwyd yn 2009-10.

## Hyd yma, nid yw cynnydd yr Awdurdod o ran datblygu dulliau mesur llwyddiant ystyrlon a'i drefniadau craffu wedi arwain at ddulliau effeithiol o fonitro a gwerthuso ei berfformiad mewn perthynas â'i flaenoriaethau

57 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliannau. Fodd bynnag, dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn rhoi mwy o sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth weithredu a bod yn gliriach ynglŷn ag i ba raddau y mae wedi cyflawni ei amcanion gwella.

58 Cyhoeddodd yr Awdurdod ei asesiad o'i berfformiad yn 2010-11 yn gynnar ym mis Gorffennaf 2011. Mae rhai o wendidau'r cynllun gwella cyfunol hwnnw eisoes wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Gellid hefyd gwella'r ffordd y mae'n darparu asesiad ystyrlon a hygyrch o'i gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion ar gyfer 2010-11. Wrth gynllunio'i ddull o gyflawni amcanion 2010-11, ni nododd yr Awdurdod unrhyw fesurau llwyddiant ystyrlon mewn nifer o feysydd. Felly, mae'n ddealladwy ei fod wedi mesur cynnydd yn 2010-11 yn bennaf trwy restru camau gweithredu, yn hytrach na thrwy gyfeirio at ganlyniadau.

59 Dylai'r sefyllfa wella dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r Awdurdod barhau i ddatblygu mesurau a data perfformiad sy'n ceisio canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pob amcan gwella. Mae'r Awdurdod yn defnyddio system boblogaidd Ffynnon i gofnodi a monitro data perfformiad ac er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r aelodau ym Mhwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod.

60 Mae tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi sefydlu adran a rennir o fewn system Ffynnon fel y gall pob awdurdod gymharu ei gynnydd unigol ar ambell ddangosydd perfformiad gyda chynnydd y ddau arall. Ar hyn o bryd, nid yw'r tri awdurdod yn diweddaru'r adran hon - enghraifft o ddatblygiad arall sy'n ofynnol er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial system Ffynnon.

61 Mae system Ffynnon yn cael ei defnyddio gan swyddogion yn bennaf. Mae gan aelodau fynediad uniongyrchol i system Ffynnon, ac wedi cael cynnig hyfforddiant perthnasol, er mai dim ond un aelod sydd wedi manteisio ar y cyfleuster hwnnw. Mae gwybodaeth o'r system yn cael ei hasesu gan dîm cyd-reoli[9] yr Awdurdod bob chwe wythnos. Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Cyflwynir adroddiadau llawn ar berfformiad y gwasanaeth cynllunio i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu a'r Pwyllgor Cynllunio, a chyflwynir y rhan fwyaf o'r adroddiadau eraill ar sail eithriad[10].

62 Mae adroddiadau perfformiad yn canolbwyntio ar wasanaethau, yn hytrach na chael eu cysylltu ag amcanion gwella perthnasol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach o lawer i aelodau a swyddogion fonitro cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau. Fodd bynnag, rydym yn deall bod yr Awdurdod eisoes wedi cymryd camau i strwythuro adroddiadau eithriad yn y dyfodol ar sail ei amcanion gwella.

63 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu'n cynnwys naw o 24[11] aelod yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod wrthi'n adolygu'r model ar gyfer penderfynu pa feysydd ddylid craffu arnynt. Fodd bynnag, mae aelodau'n awyddus i gynnwys dewis craffu i edrych ar amcanion gwella unigol, naill ai trwy edrych

9 Yn cynnwys uwch swyddogion a Thîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod.
10 Dim ond tanberfformiad a nodir.
11 Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd dwy o swyddi a benodir gan Lywodraeth Cymru'n wag.

yn ôl neu yn ystod y flwyddyn ddarparu. Mae cynnwys y cyhoedd mewn rhyw ffordd yn y broses graffu yn uchelgais arall i'r Awdurdod.

64 Fel rhan o'r prosiect craffu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod eisoes wedi treialu defnyddio agwedd thematig at graffu, gyda gweithgorau'n archwilio meysydd penodol. Ar ôl craffu ar y gronfa datblygu cynaliadwy, mae panel adolygu craffu, a benodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, wedi dechrau edrych ar 'hawliau tramwy'.

.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau, parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn fel rhan o'i ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac sy'n dweud a ydyw, yn sgil ei archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn enghreifftiau o awdurdodau gwella.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'i ddyletswyddau. Mae'r Asesiad Gwella wedi'i lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw'r awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn mynegi barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cryhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunasaseiad yr Awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21) ac mewn perthynas a hyn bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac efallai yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ystyried y wybodaeth a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Awdurdod

## Yr Awdurdod

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwario tua £6.3 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gyfystyr â thua £180 y preswylydd. Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £101,000 ar eitemau cyfalaf hefyd.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 24 o aelodau, gydag wyth wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru, wyth o Gyngor Sir Powys, dau yr un o Gynghorau Sir Fynwy a Sir Caerfyrddin ac un yr un o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Torfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau.

Dibenion yr Awdurdod yn ôl Deddf yr Amgylchedd 1995 yw:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y Parc; a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.

Wrth fynd i'r afael â'r dibenion hyn, mae Deddf 1995 hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer yr ardal.

## Tîm Rheoli Corfforaethol[12]

- John Cook yw'r Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig
- Christopher Morgan yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio
- Julian Atkins yw'r Cyfarwyddwr Rheolaeth Tir a Chefn Gwlad

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod yn www.bannaubrycheiniog.org neu cysylltwch ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HP.

12 Prif swyddogion yr Awdurdod.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyflwynwyd y llythyr archwilio canlynol ar 29 Tachwedd 2011 gan yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**Cydymffurfiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau, a gallai wneud gwelliannau pellach mewn rhai meysydd yn y dyfodol**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith er mwyn sicrhau trafodion rheolaidd a chyfreithlon, a bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'r trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon.

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon; a
- chyflwyno tystysgrif i gadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2011, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o drafodion a sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

O 2010-11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol) yng Nghymru baratoi'u cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Roedd y safonau hyn yn golygu llawer o waith ychwanegol i staff cyllid yr Awdurdod ond, er gwaethaf hyn, paratowyd y cyfrifon erbyn y dyddiad cau statudol.

Roedd ychydig o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon a hysbysais yr aelodau amdanynt yn adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol adeg cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon. Mae hefyd angen ystyried gwella rhai elfennau o'r mesurau rheoli ariannol mewnol yn ystod y flwyddyn i ddod, ac rwyf wedi tynnu sylw'r swyddogion atynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau sydd eu hangen yn ymwneud â gwahanu dyletswyddau'n foddhaol, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn gallu bod yn anodd mewn sefydliadau llai o faint. Fodd bynnag, mae

angen i'r Awdurdod nodi a deall y risgiau cysylltiedig lle na ellir sefydlu mesurau rheoli mewnol effeithiol oherwydd maint rhai o'i weithredoedd a'i weithgareddau.

Roedd fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Hoffwn hefyd dynnu'ch sylw at y canlynol:

- Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y cyfeiriais ato pan roddwyd y farn archwilio) yn ofyniad newydd ar gyfer 2010-11. Er i'r Datganiad gael ei gwblhau yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae lle i wella arno yn y dyfodol. Yn arbennig, wrth adrodd am adolygiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu fel rhan o'i fusnes arferol yn ystod y flwyddyn. Bydd fy nhîm ymgysylltu'n trafod y mater hwn ymhellach gyda swyddogion i adeiladu ar flwyddyn gyntaf y gofyniad newydd hwn.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon, ar 30 Medi 2011.

Disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Anthony Barrett

Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno cynlluniau i wella'i swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Rhaid cyhoeddi'r cynlluniau hyn bob blwyddyn yn ogystal ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu'u cyflawni er mwyn gwella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2010-11 yn ei adolygiad ac *Adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010 a'i amcanion gwella ar gyfer 2010-11*, a'i amcanion gwella ar gyfer 2011-12 yn ei *Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2010 i 2011 a'i amcanion gwella ar gyfer 2011 i 2012*. Gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod yn www.bannaubrycheiniog.org  Dyma'r amcanion:

| Amcanion gwella 2010-11 | Amcanion gwella 2011-12 |
|---|---|
| 1 Darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol sy'n ennyn hyder y cyhoedd a busnesau drwy gyflawni'r Cynllun Gwella Pellach.<br>2 Sicrhau bod Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei lunio yn unol ag amserlen y cytunwyd arni â Llywodraeth Cymru.<br>3 Adolygu gwaith gorfodi a chynllunio ar gyfer gwasanaeth o ansawdd i gefnogi'r broses o gynllunio datblygiadau.<br>4 Cyflawni blwyddyn 2 o'r cynllun gwella tair blynedd ar gyfer Cyllid.<br>5 Cyflawni blwyddyn 2 o'r cynllun gwella tair blynedd ar gyfer Perfformiad.<br>6 Cyflawni blwyddyn 2 o'r cynllun gwella tair blynedd ar gyfer Gwybodaeth a Llywodraethu.<br>7 Lleihau effaith amgylcheddol yr Awdurdod yn cynnwys allyriadau $CO_2$.<br>8 Datblygu egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ym mhopeth a wnawn, yn cynnwys datblygu a gweithredu Siarter gyda Chynghorau Cymuned. | 1 Gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynllunio rhagorol.<br>2 Diogelu nodweddion arbennig y Parc yn well rhag datblygiadau amhriodol.<br>3 Gwarchod treftadaeth adeiledig y Parc yn well.<br>4 Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, gan greu incwm a gwella gallu'r ardal i wrthsefyll y cynnydd mewn costau tanwydd.<br>5 Lleihau'r difrod i amgylchedd y Parc. |

## Hunansesiad o berfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad i'w weld yn ei *Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2010 i 2011 a'i amcanion gwella ar gyfer 2011 i 2012*, sydd ar wefan yr Awdurdod yn www.bannaubrycheiniog.org.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk